Dyheu · Dysg · Daioni

Grant Datblygu Disgyblion (GDD) 2026-27

Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhondda

O fis Ebrill 2024 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi ailstrwythuro'r system grantiau (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) o dan bedair elfen newydd; Safonau, Cydraddoldeb, Diwygio a Cymraeg 2050. Gelwir y Grant Amddifadedd Disgyblion bellach yn ***Ecwiti****.*

Mae'r datganiad hwn yn manylu ar ddefnydd ein hysgol o'r Grant Datblygu Lleol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/2027. Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd yn ein hysgol.

Trosolwg ysgol

Manylion	Data
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda	Ysgol 11-18 oed
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	675 (580: 7-11)
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	14.7% (7-11)
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	Ebrill 2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	Ebrill 2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Y Prifathro a'r Corff Llywodraethu
Yn arwain ar y GDD	Prifathro / UDA
Llywodraethwr sy'n arwain	B. Cradle (Cadeirydd)

Trosolwg cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad staffio	£89,644
Dyraniad di-staffio	£13,856
Dyraniad cyllid grant GDD y flwyddyn academaidd hon	**£103,500**
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon	£4,311,189

Cynllun Strategol

Mae'r GDD wedi'i gynllunio i gefnogi gwella canlyniadau'r ddarpariaeth, cymorth a dysgu i fyfyrwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd). Yn y modd hwn bwriedir i'r GDD helpu i oresgyn y rhwystr ychwanegol hwn sy'n atal plant mwy agored i niwed rhag cyflawni eu potensial llawn.

Fel ysgol, rydym wedi nodi meysydd blaenoriaeth y dangoswyd eu bod yn llwybrau mwyaf effeithiol lle gall cymorth ychwanegol gael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd academaidd. Mae'r rhain yn cyd-fynd â gwahanol agweddau ar ein gwaith yn ymwneud â hunanwerthuso a chynllunio gwella.

Mae ein cylch hunanwerthuso a gwella yn seiliedig ar y 3 maes blaenoriaeth gwella ysgol canlynol:

- MA 1: Addysgu a Dysgu
- MA 2: Gofal, cefnogaeth a lles
- MA 3: Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Pwrpas y dyraniad	**Swm**	**Staffio / Di-staffio**
Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd [FEO] (20%)	£5,198	Staffio
Swyddog Lles, Cynhwysiant ac Ymyrraeth CA3 (100%)	£37,946	Staffio
Darpariaeth Amgen Cwricwlaidd ‘Step 4’ (allanol) (50%)	£33,000	Staffio
Darpariaeth Amgen ‘Junior Apprenticeship’ (50%)	£13,500	Staffio
Pecyn Cwricwlwm Amgen ASDAN (mewnol)	£3,516	Di-staffio
Cefnogaeth i fentrau Llesiant a Phresenoldeb	£1,990	Di-staffio
Cau'r Bwlch (lwfans y pen) – cyfoethogi a darpariaeth	£6,350	Di-staffio
Cynllun Gwobrwyo ysgol	£2,000	Di-staffio
	£103,500	